

MYNEDIAD I WASANAETHAU CYNLLUNIO

CYNGOR CYNLLUNIO

Ni fydd swyddogion cynllunio yn bresennol yn Neuadd y Sir i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r uchod. Rydym yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio, lle gallwn gynnig arweiniad ar ba mor dderbyniol yw eich cynnig. Gellir cyflwyno'r ffurflen yn electronig drwy [Porth Fy Fynwy](#) neu gallwn anfon ffurflen atoch drwy e-bost/yn y post. Os oes gennych gwestiwn cyffredinol neu os hoffech drafod yr uchod yn fanylach, gallwch siarad â'n Swyddog Cynllunio ar Ddyletswydd drwy ffonio 01633 644880.

CYFLWYNO CEISIADAU CYNLLUNIO

Os ydych yn cyflwyno cais cynllunio, byddem yn eich annog i wneud hynny drwy ddefnyddio y [Porth Cynllunio](#). Fel arall, gallwch anfon eich ceisiadau atom drwy e-bost neu bost.

TALU AM GAIS CYNLLUNIO/GWASANAETH ERAILL SY'N GYSYLLTIEDIG Â CHYNLLUNIO

Ni allwn gymryd taliadau yn Neuadd y Sir. Os bydd angen i chi dalu am gais cynllunio neu am wasanaeth arall fel cyngor cyn ymgeisio, tystysgrifau cyn-brynu/cwblhau, defnyddiwch yr opsiwn [Talu am Wasanaeth](#) a fydd yn eich galluogi i dalu ar-lein drwy'r wefan. Fel arall, gallwch dalu dros y ffôn drwy ffonio 01633 644355. Bydd hyn yn mynd â chi drwodd i adran Arianwyr y Cyngor.

EDRYCH AR GEISIADAU CYNLLUNIO/CHWILIADAU HANES CYNLLUNIO

Ni fydd swyddogion Cymorth Cynllunio ar gael yn Neuadd y Sir i'ch cynorthwyo gydag ymholiadau chwilio cynllunio. Gellir gweld ceisiadau ar-lein, Drwy'r ddolen [Edrych ar y Ceisiadau Cynllunio](#).

Weithiau efallai mai dim ond hysbysiad o benderfyniad sydd ar gael, yn enwedig o ran cymwysiadau hŷn sydd bellach yn cael eu storio ar microfiche. Os yw hyn yn wir a bod angen i chi weld y lluniadau er enghraifft, ar yr amod eich bod yn gwybod rhif y cais, gallwn eu hanfon atoch trwy e-bost. Os nad ydych yn gwybod beth yw rhif y cais, gallwn gynnal chwiliad hanes cynllunio ac mae ffi o £50.00 yr awr am y gwasanaeth hwn. Anfonwch e-bost atom am fwy o fanylion.

Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae angen i chi weld hen ffeil eich hun sy'n cael ei storio ar microfiche yn Neuadd y Sir, anfonwch e-bost atom a gallwn drefnu apwyntiad i chi ddod i mewn.

SYLWADAU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

Byddem yn eich annog i gyflwyno sylwadau drwy ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen Edrych ar Geisiadau Cynllunio. Wrth edrych ar y cais, fe welwch y botwm 'Gwneud Sylw'. Cwblhewch y meysydd yn ôl yr angen a'u cyflwyno. Fel arall, gallwch gyflwyno eich sylw drwy e-bost.

DARPARU SAMPLAU DEUNYDDOL

Ni ddylid dod â samplau deunydd i Neuadd y Sir na'u hanfon atom gan nad oes gennym y lle storio mwyach. Gadewch unrhyw samplau ar y safle a bydd y Swyddog Cynllunio sy'n delio â'r cais yn trefnu i gwrdd â chi yno. Fel arall, gallwch e-bostio detholiadau/tudalennau o lyfryn y gwneuthurwr atom ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn foddhaol.

ADRODD TORRI RHEOLAU CYNLLUNIO

Ni fydd swyddogion Gorfodi Cynllunio ar gael yn Neuadd y Sir i drafod tor- rheolaeth cynllunio y gallech fod yn rhoi gwybod amdano. Gallwch roi gwybod am achosion o'r fath drwy ddefnyddio [Porth Fy Sir Fynwy](#) neu gallwch anfon e-bost atom.

GWYBODAETH GYSWLLT

Ffôn – 01633 644880

E-bost – cynllunio@monmouthshire.gov.uk

Rheoli Datblygu

Cyngor Sir Fynwy Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga.

NP15 1GA

N:\Planning\Development Management\Staff\PSS Team\Public and Reception 2024 cym.docx

